# Polisi Ymddygiad a Disgyblaeth Plant

# 2025-26

YSGOL PANT PASTYNOG

**Pennaeth:** Mr Meirion Edwards

## Nôd

Creu awyrgylch hapus a chartrefol yn yr ysgol – gan greu ymdeimlad o hunan-ddisgyblaeth. Gweithredu system o wobrwyo a disgyblaeth bendant gyson yn yr ysgol. Mae'r polisi yn cefnogi gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru a'r Pedwar Diben.

## Amcanion

- Gosod sylfaen a fydd yn caniatáu i'r plant dyfu i fod yn aelodau cyfrifol o'u cymdeithas.
- Meithrin hunan-barch, parch tuag at eu cyd-ddisgyblion, oedolion ac eiddo.
- Bod yn oddefgar o safbwynt a barn pobl eraill.
- Derbyn cyfrifoldeb am eu hymddygiad a bod yn hunan-feirniadol.
- Gwerthfawrogi bodolaeth gwahanol boblogaeth, traddodiadau, diwylliannau a chrefyddau ayyb.
- Datblygu dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gwybod pryd i gymryd cyfrifoldeb.
- Annog dinasyddion moesegol, gwybodus sy'n deall ac yn parchu amrywiaeth.
- Meithrin cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n datrys problemau ymddygiad yn bositif.
- Tyfu unigolion iach, hyderus sy'n deall sut i ofalu amdanynt eu hunain a'u perthnasau.

## Datganiad o Bolisi

Mae llwyddiant ysgol yn dibynnu ar bobl yn gweithredu mewn ffyrdd arbennig i gyflawni ei nôd a'i hamcanion. Mae cydweithio rhwng y bobl sydd yn ymwneud â'r ysgol hon yn hanfodol i'w llwyddiant. Gwneir dysgu ac addysgu'n effeithiol drwy ymddygiad da ond amherir ar y prosesau hyn gan ymddygiad annerbyniol. Rhaid cael diffiniad clir o ymddygiad derbyniol, ac adlewyrchir hyn yn ethos yr ysgol.

## Gweithio gyda'n Gilydd: Rhannu'r Cyfrifoldeb

Mae camau ymarferol i rieni, disgyblion, llywodraethwyr, athrawon a staff cefnogi fel a ganlyn:

- **Rieni:**
  - Gysylltu â'r ysgol os oes pryder o ran disgyblaeth.
  - Annog plant i ddilyn rheolau'r ysgol.
  - Cefnogi'r ysgol os gweithredir camau pellach.
  - Modelu iaith bositif a pharchus gartref.

- **Disgyblion:**
  - Dilyn rheolau'r ysgol a'r cytundeb cartref-ysgol.
  - Dweud wrth rywun ac ymddiried yn y staff.
  - Bod yn ymwybodol o'r gwobrau a'r cosbau a dderbynnir.
  - Cymryd rhan mewn sgwrs adferol os oes camwedd.

- **Llywodraethwyr:**
  - Deall y polisi ac adolygu’n flynyddol.
  - Cefnogi’r staff wrth weithredu’r polisi.
  - Gweithio gyda’r ysgol i hyrwyddo ethos cadarnhaol.

- **Athrawon a Staff:**
  - Gweithredu’r polisi’n deg ac yn gyson.
  - Defnyddio canmoliaeth yn amlach na chosb.
  - Sicrhau disgwyliadau uchel o ymddygiad a gwaith.
  - Defnyddio dulliau adferol cyn cosbau ffurfiol.
  - Cadw cofnodion o achosion difrifol.
  - Dangos parch tuag at bawb a gosod esiampl dda.

## Gwobrwyo

Rydym wedi datblygu disgyblaeth bositif gyda systemau gwobrwyo. Mae’r rhain yn cynnwys pwyntiau dojo, sticeri, cardiau canmol a gwobrau am gyfraniad arbennig i’r ysgol neu’r gymuned. Mae disgyblion yn cael cyfle i greu rheolau dosbarth ar ddechrau’r flwyddyn a byddwn yn rhannu Cerdyn Canmol yn ein gwasanaeth ar ddydd Gwener a dewis plentyn sy’n Siaradwr Cymraeg yr Wythnos.

## Disgyblu

Rydym yn defnyddio system ‘Goleuadau Traffig’ ar draws yr ysgol. Os bydd ymddygiad yn parhau, defnyddir sgwrs adferol fel cam cyntaf. Os bydd ymddygiad annerbyniol yn parhau, gweithredir cosbau priodol gan gynnwys colli gweithgareddau/amser chwarae. Mae bwlio, ymladd, neu ymddygiad amharchus difrifol yn arwain at gamau disgyblaethol difrifol, hyd at waharddiad gan y Pennaeth. Mae’r ysgol yn hyrwyddo dulliau adferol i ailadeiladu perthnasau.

## Gwrth-fwlio

Ni chaniateir bwlio o unrhyw fath yn yr ysgol. Mae’r ysgol yn trafod bwlio’n agored ac yn defnyddio rhaglenni addysgiadol a digwyddiadau fel Diwrnod Gwrth-fwlio i godi ymwybyddiaeth. Bydd pob achos o fwlio yn cael ei ymchwilio’n drylwyr a’i drafod gyda rhieni. Gweler Polisi Gwrthfwlio’r ysgol.

## Gwerthoedd ein hysgol

Rydym yn hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol drwy gydol y flwyddyn – **Gwasanaethu, Cyfiawnder, Maddeuant, Cariad a Pharchu**. Ein nod yw ceisio datblygu sdisgyblion sy'n meithrin y gwerthoedd hyn.

## Rheolau Aur yr Ysgol

- Parchu pawb a phopeth.
- Byddwch yn garedig a chwrtais.
- Gwnewch eich gorau.
- Siaradwch Gymraeg.
- Byddwch yn onest.

## Casgliad

Ceisia'r polisi hwn greu ethos caredig, ystyriol a diogel o fewn yr ysgol. Drwy gymhwyso disgyblaeth deg, cadarnhaol ac adferol, gall yr ysgol sicrhau tegwch i bawb.

## Cymeradwyo

Bydd y polisi'n cael ei adolygu'n flynyddol gyda chyfraniad y Cyngor Ysgol, Staff a'r Llywodraethwyr – **Medi 2026**.

Dyddiad: __1.10.25___ Arwyddwyd: _Ela Jones_________________ Cadeirydd Cyngor Ysgol

Dyddiad: __1.10.25___ Arwyddwyd: _M L Edwards___________ Pennaeth

Dyddiad: __1.10.25___ Arwyddwyd: _M Pierce_______________ Cadeirydd Llywodraethwyr